

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr aelodau am absenoldeb.

**2. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL I'R MAER**

Derbyn cynrychiolydd o Gideon's International (Cangen Clwyd), i gyflwyno copi o'r Ysgrythur i'r Maer.

**3. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Y Cyngor	-	17eg Gorffennaf 2019	-	Rhifau Cofnod	33-51
Pwyllgor Cynllunio	-	17eg Gorffennaf 2019	-	Rhifau Cofnod	10-12
Pwyllgor Cynllunio	-	4ydd Medi 2019	-	Rhifau Cofnod	13-17

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid Dibenion Cyffredinol	a -	4ydd Medi 2019	-	Rhifau Cofnod	13-24
---	-----	----------------	---	------------------	-------

**4. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**5. CYFLWYNIAD: MR M. HORROCKS, CYNGOR SIR DDINBYCH –  
DIWEDDARIAD AR UWCHGYNLLUN CANOL TREF Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 23 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mehefin 2019, croesawu Mr Horrocks (Rheolwr Rhaglen, Datblygu Economaidd a Busnes) i'r cyfarfod i roddi cyflwyniad i'r aelodau yn eu diweddarau ar y cynnydd ar yr uwchgyllun.

**6. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR  
CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

## **7. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU: ARCHWILIO CYFRIFON 2017/18**

Ymhellach i gofnod rhif 113 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2019:

- (a) Yn unol ag Adrannau 25 a 26 Deddf Archwilio Cyheoddus (Cymru) 2004, derbyn ac ystyried adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) yn ymwneud ag argymhellion ffurfiol a wnaed gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru.
- (b) Derbyn yn ffurfiol argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol a chymeradwyo dogfen crynodeb drafft i'w chyflwyno.

## **8. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

**(i) SIR DDINBYCH GYNALIADWY**

**(ii) GRŴP BUSNES Y RHYL**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) a phenodi cynrychiolwyr newydd ar y cyrff allanol uchod.

## **9. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## **10. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol.

## **11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## **12. CYNLLUN GWOBRAU DINESIG Y MAER**

Ymhellach i gofnod rhif 76 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, derbyn manylion cyfrinachol ymgeisydd ar gyfer Gwobr Ddinesig y Maer a phenderfynu ar y cynnig.

## **13. GWYBODAETH: COFNODION CFRINACHOL**

Cydnabod y cofnodion cyfrinachol canlynol (copiau'n amgaeëdig) er gwybodaeth yn unig:

Pwyllgor CSG - 8fed Gorffennaf 2019 - Rhifau Cofnod 1 - 7

## **14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben